

Jane Hutt AS/MS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

27 Mai 2022

Annwyl Jenny,

Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol Craffu blynyddol ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: Y wybodaeth ddiweddaraf

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol am eu hadroddiad ar y craffu blynyddol ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru, y Senedd a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn ystyried argymhellion yr adroddiad craffu hwn ar waith y Comisiynydd. Felly, edrychaf ymlaen at gael diweddariad pellach ar safbwyntiau ac argymhellion y Pwyllgor i'r Comisiynydd. Isod, rwyf wedi nodi'r ymateb i argymhellion yr adroddiad sy'n cyfeirio at Lywodraeth Cymru. Sylwch fod Argymhelliad 3 yr adroddiad, sy'n ymwneud â hyfforddiant a datblygiad proffesiynol gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru, yn fater i'r Ysgrifennydd Parhaol, a fydd yn darparu ymateb ar wahân i'r Pwyllgor ynghylch hyn.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Yn gywir,

Jane Hutt AS/MS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cc: Prif Weinidog Cymru, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Craffu blynyddol ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: Y wybodaeth ddiweddaraf

Ymateb Llywodraeth Cymru (Mai 2022)

Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal gwerthusiad a fydd yn edrych ar gwmpas gwaith a chyfrifoldebau'r Comisiynydd, gyda'r bwriad o nodi cynllun i gefnogi unrhyw ehangu yn y dyfodol. Dylid cynnal y gwerthusiad hwn mewn pryd ar gyfer penodi Comisiynydd newydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2023.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn cynnal adolygiad o'r cyrff cyhoeddus sy'n rhwym wrth Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd ymestyn rhestr y cyrff sy'n rhwym wrth y Ddeddf yn golygu bod dyletswydd gyffredinol a swyddogaethau'r Comisiynydd yn berthnasol i ragor o gyrff. Rydym yn cynnal trafodaethau gyda swyddfa'r Comisiynydd ynghylch y goblygiadau ariannol i'w swyddfa o ran monitro a chefnogi cyrff ychwanegol. Cyn bo hir byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad ynghylch yr adolygiad a byddwn yn gwahodd sylwadau ar y rhestr arfaethedig o gyrff ychwanegol.

Cafodd y cyrff cyhoeddus sy'n rhwym wrth y Ddeddf eu nodi yn unol â chyfres o bedwar maen prawf a nodir yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Rydym yn defnyddio'r rhain eto yn yr adolygiad hwn. Rhoddais ragor o fanylion am hyn mewn [llythyr](#) i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ym mis Mawrth. Roedd amcangyfrif y Comisiynydd o gyrff cyhoeddus ychwanegol a amlinellwyd yn ystod ei hymddangosiad gerbron y Pwyllgor ar 7 Chwefror yn seiliedig ar restr hir o gyrff a oedd yn cynnwys y rheini a amlygwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei adroddiad yn 2020, yn ogystal â'r rheini a awgrymwyd gan rai rhanddeiliaid yn yr ymgynghoriad ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) drafft yn 2021. Ar sail ein hasesiad cychwynnol, ni fydd llawer o'r cyrff cyhoeddus a nodir yn y rhestr hon yn bodloni'r meini prawf sydd wedi'u sefydlu, ac rydym yn amcangyfrif y bydd llai na deg corff cyhoeddus ychwanegol yn rhwym wrth y Ddeddf yn dilyn yr adolygiad.

Y tu hwnt i hyn, dylai unrhyw werthusiad o ddyletswydd gyffredinol a swyddogaethau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fod yn rhan o werthusiad ôl-ddeddfwriaethol ehangach o effeithiolrwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rwyf wedi gofyn i swyddogion archwilio'r cwmpas a'r angen am werthusiad o'r Ddeddf, a allai gynnwys asesiad o rôl a swyddogaethau'r Comisiynydd. Byddaf yn rhoi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y gwerthusiad hwn maes o law, a byddwn yn falch o weld y Pwyllgor yn cymryd rhan yn y gwaith hwn wrth iddo ddatblygu.

Mae'r paratodau i recriwtio'r Comisiynydd nesaf yn mynd rhagddynt a byddaf yn ysgrifennu atoch ynghylch hyn ar wahân.

Goblygiadau Ariannol

Bydd goblygiadau ariannol ymestyn dyletswydd llesiant y Ddeddf i gyrff ychwanegol yn cael eu hasesu fel rhan o Aseiad Effaith Rheoleiddiol. Bydd costau o ganlyniad i ymgynghori ac ymgysylltu â chyrrff cyhoeddus, costau i gyrff, a goblygiadau i'r Comisiynydd ac i'r Archwilydd Cyffredinol. Bydd goblygiadau ariannol gwerthuso'r Ddeddf yn cael eu hystyried fel rhan o gam cwmpasu'r gwerthusiad. Bydd costau'n codi wrth recriwtio'r Comisiynydd newydd. Bydd cyllidebau adrannol presennol yn talu am hyn.

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau ar gyfer gwreiddio'r Ddeddf er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar fywyd cyhoeddus yn cael ei llywio gan y ddeddfwriaeth a bod y mesurau sydd ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd o ran gweithredu'r Ddeddf yn addas at y diben.

Ymateb: Derbyn

Llywio bywyd cyhoeddus

Cafodd y Ddeddf ei chyflwyno i gryfhau'r trefniadau llywodraethu presennol mewn sefydliadau penodol yn y sector cyhoeddus er mwyn gwella llesiant Cymru. Er bod y Ddeddf yn canolbwyntio ar wella'n barhaus sut mae cyrff cyhoeddus yn gweithio, a sut maent yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, mae wedi cael effaith ehangach y tu hwnt i'r cyrff cyhoeddus hynny. Roedd Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd, a'r ymchwiliad gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn nhymor diwethaf y Senedd yn dangos bod busnesau, cyrff cyhoeddus eraill, y trydydd sector a grwpiau cymunedol yn gweld gwerth y fframwaith sy'n cael ei ddarparu gan y Ddeddf yn y gwaith maent yn ei wneud. Mae hyn yn un o gryfderau mawr y Ddeddf, ac mae'n rhywbeth y byddwn yn parhau i'w gefnogi drwy'r dulliau sydd gennym fel ei fod yn dal wedi'i wreiddio yn yr hyn rydym yn ei wneud a sut rydym yn siapio dyfodol Cymru. Byddwn yn edrych sut gallwn roi gwybod yn well i bobl am y camau rydym yn eu cymryd i wreiddio'r Ddeddf ymhellach yn y ffordd rydym yn gweithio. Byddwn yn parhau i ddefnyddio Fforwm Rhanddeiliaid Cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i lywio ein gwaith. Mae'r Fforwm wedi nodi camau gweithredu i hyrwyddo'r Ddeddf y tu hwnt i gyrrff cyhoeddus fel maes ffocws yn 2022. Mae'r Comisiynydd yn parhau i chwarae rhan bwysig drwy ei dyletswydd gyffredinol i hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy a darparu cyngor neu gymorth i bobl sy'n cymryd neu'n dymuno cymryd camau sy'n cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant.

Llywodraeth Cymru

Mae'r deg amcan llesiant yn ganolog i'n Rhaglen Lywodraethu. Mae'r Rhaglen yn dangos rôl ganolog dull llesiant cenedlaethau'r dyfodol o ran ein ffordd o feddwl a llunio polisïau. Mae'r Rhaglen yn gynllun uchelgeisiol a radical, sy'n cyflawni'r addewidion maniffesto a wnaethom i bobl Cymru yn ystod etholiad 2021 y Senedd. Mae gosod yr amcanion llesiant yn y Rhaglen yn sicrhau bod pobl yng Nghymru yn gallu gweld eu llais democrataidd yn cael ei adlewyrchu yn ein cynlluniau ar gyfer tymor y llywodraeth hon. Ar draws ein holl waith, rydym yn pwysleisio cynhwysiant, cyfiawnder cymdeithasol a phartneriaeth, ac rwyf yn falch bod ein maniffesto yn seiliedig ar sgwrs genedlaethol, sy'n cynnwys lleisiau o bob cwr o Gymru.

Mesurau sydd ar waith i fonitro a gwerthuso'r gweithrediad gan gyrrff

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno newidiadau i'r ffordd caiff y sefydliadau cyhoeddus penodol eu llywodraethu ac yn creu fframwaith i wella llesiant tymor hir yng Nghymru. Mae system o adroddiadau blynyddol statudol ar gyfraniad cyrff yn sicrhau tryloywder. Gyda golwg ar sefydliadau a noddir gan Lywodraeth Cymru, mae gweithredu'r Ddeddf yn amodol ar y drefn ehangach o oruchwylio a rheoli perfformiad gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys llythyrau cylch gwaith blynyddol y cyrff a noddir, a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru i lywio eu cynlluniau corfforaethol, a'r dogfennau fframwaith y cytunir arnynt rhwng pob sefydliad a Llywodraeth Cymru. Mae'r templed ar gyfer llythyrau cylch gwaith Tymor y Llywodraeth yn

cynnwys gofyniad i gyflawni dyletswydd llesiant y Ddeddf yn llawn. Mae'n rhaid i lythyrau cylch gwaith newydd ar gyfer Tymor y Llywodraeth fod yn eu lle ar ôl etholiad 2021 Senedd Cymru ym mis Mai 2021. Y Timau Partneriaeth Cyrff Hyd Braich fydd yn gyfrifol am asesu i ba raddau y mae Cyrff Hyd Braich yn cyflawni'r gofynion hynny, ar sail yr wybodaeth fonitro a ddarperir iddynt gan y Cyrff.

Yr hyn sy'n gosod Cymru ar wahân i wledydd eraill wrth hyrwyddo datblygu cynaliadwy yw gwaith Comisiynydd annibynnol Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, ac Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae'r naill a'r llall yn cyhoeddi adroddiad statudol bob pum mlynedd. Cafodd yr adroddiadau hyn eu cyhoeddi am y tro cyntaf ym mis Mai 2020 ac maent yn gofnod rheolaidd o weithredu'r Ddeddf. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ymgynghori ynghylch sut y gallai gyflawni ei archwiliadau o dan y Ddeddf dros gyfnod adrodd 2020-2025 ac mae wedi ysgrifennu at gyrrff cyhoeddus i amlinellu'r dull gweithredu arfaethedig. Yn eu hadroddiad blynyddol a'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, mae'r Comisiynydd wedi amlinellu eu cynlluniau ar gyfer cyflawni eu dyletswydd i fonitro ac i asesu i ba raddau y mae amcanion llesiant yn cael eu cyflawni.

Mecanweithiau cenedlaethol i fesur cynnydd

Mae gennym 50 o ddangosyddion llesiant cenedlaethol, a naw carreg filltir genedlaethol, sy'n ein helpu i fonitro'r cynnydd at y saith nod llesiant. Ar ben hynny, mae ein Hadroddiad Tueddiadau'r Dyfodol yn dwyn ynghyd mewn un man y tueddiadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol allweddol a allai effeithio ar lesiant Cymru yn y dyfodol, yn ogystal â rhai o'r ffactorau a allai ddylanwadu ar gyfeiriad y tueddiadau hynny. Mae ein cerrig milltir cenedlaethol yn sbarduno gweithredu ar y cyd ac yn fesur allweddol o gyflymder a graddfa'r newid sydd ei angen mewn nifer o feysydd allweddol ac maent wedi'u hanelu at sbarduno cynnydd o ran mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb. Mae ein dangosyddion cenedlaethol yn cynrychioli'r canlyniadau a ddymunir i Gymru a'i phobl ac yn darparu darlun cenedlaethol mwy cyfannol o'r hyn sy'n newid. Caiff y dangosyddion eu diweddarau drwy gydol y flwyddyn, wrth i ddata newydd ddod i'r fei. Mae'r [adroddiad 'Llesiant Cymru'](#) blynyddol, a gyhoeddir gan Brif Ystadegydd Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sydd wedi cael ei wneud yng Nghymru o ran cyflawni'r nodau llesiant, gan gyfeirio at y dangosyddion ochr yn ochr â data perthnasol arall. Mae'r mecanweithiau hyn yn adlewyrchu'r arferion gorau o ran sut mae gwledydd yn ymateb i'r agenda Nodau Datblygu Cynaliadwy a'n diweddariadau diweddar i'r dangosyddion cenedlaethol ac mae gosod cerrig milltir cenedlaethol yn sicrhau bod fframwaith Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dal yn berthnasol i Gymru yn 2022.

Goblygiadau Ariannol

Dim.